



GwE

BWLETIN GWYBODAETH
TYMOR YR HAF 2013

Pwrpas y bwletin hwn yw eich diweddarau am ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â GwE. Cyhoeddir bwletinau'r dyfodol bob hanner tymor.

Cefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd

Mae 10 ysgol uwchradd a 91 ysgol gynradd ar draws y rhanbarth wedi cychwyn ar y Rhaglen Gymorth Genedlaethol. Bydd yr ysgolion eraill i gyd yn cael mynediad i gymorth gan gychwyn naill ai ym mis Medi neu ym mis Tachwedd eleni. Atgoffir ysgolion bod angen clustnodi arian o'u grant GEY er mwyn rhyddhau athrawon i gydweithio â'u Partner RhGG. Mae'r Canllaw ar gyfer Ysgolion (Rhan 1) ar gael nawr ar wefan Dysgu Cymru (Learning Wales) neu trwy ddilyn y ddolen hon:

<http://learning.wales.gov.uk/resources/nsp-guide-part-1/?jsessionid=28ED29E183D649C4FE521151B1F86AAA?skip=1&lang=cy>

Rydym ar hyn o bryd yn penodi Partneriaid Cyswllt a fydd yn gweithio mewn ysgolion dynodedig i gefnogi cynllunio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'i weithredu. Bydd y Partneriaid Cyswllt yn cychwyn ar eu gwaith fis Medi 2013.

Fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod pob Arweinydd System yn 'Arweinydd System Llythrennedd a Rhifedd' cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ar 24 Mai 2013 er mwyn rhannu gwybodaeth am y Rhaglen Gymorth Genedlaethol a'r profion cenedlaethol.

Ymweliadau Monitro Ysgol Tymor yr Haf

Bydd yr ymweliadau monitro ysgol yn cynnwys tair prif eitem ar yr agenda:

- cynnydd yr ysgol ers y cyfarfod diwethaf;
- hunanarfarnu'r ysgol sy'n gysylltiedig ag adran 'gallu i wella' Erfyn Gwerthuso Arweiniad a Rheoli;
- materion eraill ysgolion unigol.



Yn gysylltiedig â'r ymweliadau, mae GwE yn awyddus i ysgolion adnabod 'ymarfer hynod i'w ledaenu'.

Penodiadau

- Penodwyd Ceri Davies fel Swyddog Cefnogi Gweinyddol yn Hwb Conwy / Sir Ddinbych; mae Ceri wedi ymuno â'r gwasanaeth.
- Penodwyd Vicky Barlow, Tracy Howarth, Mark Davis a Huw Robertson. Bydd Vicky, Tracy a Mark yn ymuno â'r gwasanaeth ym mis Medi 2013; bydd Huw yn ymuno â'r gwasanaeth ym mis Ionawr 2014.

Grŵp Defnyddwyr GwE

Cynhaliwyd dau gyfarfod Grŵp Defnyddwyr ers y bwletin diwethaf.

Gellir crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd fel a ganlyn:

- Rhaglen Waith Tymor yr Haf;
- Rhaglen Adolygiad a Datblygiad Personol ar gyfer Arweinyddion System;
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth (rhwng GwE a'r chwe awdurdod);
- Cefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd.

Darparu Geirda

Yn dilyn cyngor gan adran Adnoddau Dynol yr awdurdod lletyol a chytundeb cyfarwyddwyr chwe awdurdod Gogledd Cymru, ni chaniateir i swyddogion GwE ddarparu geirda i ymgeiswyr am swyddi yn ysgolion y rhanbarth cyfan. Bydd gweithredu yn y modd hwn yn sicrhau bod rôl GwE a'i swyddogion yn un annibynnol a diduedd ac yn osgoi sefyllfaoedd anodd posibl.

Manylion Cyswllt

Diweddarwyd taflen manylion cyswllt ac mae ar gael ar wefan y Consortiwm:

<http://www.consortiwm.org/course/view.php?id=37>.

